

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
2 Rhagfyr 2019 yn Neuadd Llangeitho am 8 o'r gloch.
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
2 December 2019, in Llangeitho Hall, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.
The Chair welcomed everyone to the monthly meeting.

Presennol/Present

Cyng Gwenfair Owen (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Emyr Jones, Myrddin James, Beryl Evans, Eirian Jones, Paul Rooke, John Evans, Rhian Turner a Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Neb / No one

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu/Police Report – Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad. / *In the absence of the police no report was given.*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cynnig / Proposed: Cyng Paul Rooke

Eiliwyd / Seconded: Cyng John Evans

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cyng Dafydd Morse wedi ymgynghori efo Mr Huw Davies, o'r Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho ac maent am gadw'r polyn a'r fflag ar ddaear yr ysgol. Angen cysylltu efo'r ysgol i weld a ydynt yn bwriadu rhoi fflag newydd lan ar y polyn erbyn yr eisteddfod ac o bosib i'r Cyngor Cymuned dalu am y fflag.
- *Cllr Dafydd Morse has consulted Mr Huw Davies, Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho, and they wish to keep the flagpole and flag on the grounds of the school. Need to contact the school to see if they intend to place a brand-new flag up for the National Eisteddfod. It could be possible for the Community Council to pay for the flag.*
- Cyng Rhodri Evans i gysylltu â'r Cyngor Sir i weld beth yw'r drefn am blannu blodau ar gylchfan Llangeitho.
- *Cllr Rhodri Evans to consult the County Council to see what the process is for planting flowers on the roundabout.*
- Derbyniwyd e-bost answyddogol i gadarnhau ein llwyddiant i dderbyn grant ar gyfer gwaith am y milwr, disgwyl cadarnhad ar bapur. Cytunwyd i ofyn i'r contractwr i ddechrau ar y gwaith yn syth ar ôl y Pasg os yn bosibl. Clerc i'w hysbysu.
- *An unofficial email has been received noting that the Council has been successful in obtaining a grant towards the refurbishment work on the soldier monument on Llangeitho square. It was agreed to ask the contractor to start on the work immediately after Easter. Clerk to notify him.*
- Nid oedd dim i adrodd ynglŷn ag asesu'r costau etholiad, Cyng Rhodri Evans dal i drafod efo Ms Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Mrs Glynis Davies ynglŷn â'r costau.
- *There was nothing to report about the assessment of election costs. Cllr Rhodri Evans is continuing to discuss the costs with Ms Lowri Edwards, Leading Corporate Officer, and Mrs Glynis Davies.*
- Aelodau'r Cyngor Sir wedi bod allan yn asesu'r twll yn y ffordd/culvert wedi cwmpo ar y gornel sy'n troi lan am Bronaeron o Parchrhydderch.
- *County Council staff have been out to assess the hole in the road/culvert which has collapsed on the corner which turns up towards Bronaeron from Parcrhydderch.*
- Golau lamp stryd gyferbyn a Glynderwen wedi'u hadnewyddu ac yn gweithio yn iawn.
- *Streetlight opposite Glynderwen has been renewed and is now working properly.*
- Cyng Rhodri Evans yn edrych mewn i'r broblem o'r twll wrth ymyl y ffordd rhwng Cnwc y Barcud a Cae Melyn.
- *Cllr Rhodri Evans is looking into a solution for the hole at the side of the road between Cnwc y Barcud and Cae Melyn.*
- Cyng Rhodri Evans wedi derbyn cadarnhad bod y golau stryd ar gornel Castle House yn mynd i ddychwelyd.
- *Cllr Rhodri Evans has received confirmation that the streetlight on the corner of Castle House is going to return.*
- Cyng Daniel Thomas wedi derbyn cadarnhad fod gwasanaeth y Swyddfa Bost symudol yn mynd i ddychwelyd un diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd.

- *Cllr Daniel Thomas has received confirmation that the mobile Post Office service will be returning for one day per week, at this time.*
- *Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth Will Evans bod hi'n bosibl i drefnu un sesiwn hyfforddiant ar y peiriant Di-ffib yn Llangeitho ac un arall ym Mhenuwch.*
- *Confirmation received from Will Evans that it is possible to arrange one training session in the use of the defibrillator in Llangeitho, and another in Penuwch.*
- *Angen y sweeper i fyny rhiw Cefnbanadl, Llwynpiod.*
- *Need for the sweeper to go up the Cefnbanadl hill in Llwynpiod.*
- *Cadarnhad wedi'u dderbyn bod yna bagiau o halen/grit yn mynd i fod ym mhob gorsaf bleidleisio.*
- *Confirmation received that bags of salt/grit will be placed at each polling station.*

Gohebiaeth/Correspondence

- *Llythyr wedi'u dderbyn ynglyn a newid ffiniau Meddygfa Borth, trafodwyd y llythyr a chytunwyd i'r Cadeirydd ddrafftio ymateb i'r Clerc i'w hanfon i ddangos ein consyrn am feddygfeydd cyfagos a'r goblygiadau arnynt.*
- *Letter received about amending the geographical boundary of Borth Surgery. It was discussed and it was agreed for the Chair to draft a response for the Clerk to send, noting our concern for this local surgery and the consequences of this move.*

Cyfrifon/Accounts

- *Cyflog y Clerc (Mis Tachwedd) / Salary of the Clerk (November) £106.36*
- *Brian Bulman (Garddwr / Gardener) £250.00*
- *Apêl Pabi (torch) / Poppy Appeal (wreath) £25.00*

Cynnig / Proposed: Cyng Beryl O Evans
Eilio / Seconded: Cyng Gwilym Evans

Praesept / Precept 2020-21

Soniwyd bod y praesept wedi bod yn £5,500 ers 2014-15 a chytunwyd ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones i gadw'r un fath ar £5,500

It was noted that the precept has remained at £5,500 since 2014-15 and it was agreed, on the proposal of Cllr Beryl Evans and seconded by Cllr Emyr Jones, to keep it at £5,500 for another year.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Trafodwyd a chytunwyd i'r ceisiadau cynllunio canlynol ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans.

The following planning applications were discussed and agreed to on the proposal of Cllr Gwilym Evans and seconded by Cllr Beryl Evans.

Ymgeisydd/Applicant: D Evans
Safle/Site: Fedw Fawr, Llwynygroes, Tregaron
Y Bwriad/Proposal: Alterations and renovation of dwelling

Ymgeisydd/Applicant: T Carter
Safle/Site: Porth-y-Rhiw, Capel Betws Lleucu, Llwynygroes, Tregaron
Y Bwriad/Proposal: Erection of single storey extension

Ymgeisydd/Applicant: Sandra Collins
Safle/Site: Brynmair, Llangeitho, Tregaron
Y Bwriad/Proposal: Proposed New Vehicular Access and Parking Bays

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i adrodd. / Nothing to report.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- *Estynnwyd llongyfarchiadau i Cyng Myrddin James a Cyng Beryl Evans ar eu llwyddiant yn y Fair Aef yn Llanelwedd.*

- *Congratulations were extended to Cllrs Myrddin James and Beryl Evans on their recent success at the Winter Fair in Llanelwedd.*
- *Hefyd rhoddwyd llongyfarchiadau i Cyng Eirian Jones am ei chyfweliad radio estyngedig dros yr haf.*
- *Also, congratulations were given to Cllr Eirian Jones for her extended radio interview over the summer.*
- *Derbyniwyd ymholiad ar reolau hedfan drôns, gofynnir i'r Clerc gwneud ymholiadau efo PCSO John Evans.*
- *A query was received as to the rules for flying drones locally; the Clerk was asked to contact PCSO John Evans about this.*
- *Consyrn wedi'u godi am y llythyr sydd yn dod allan efo Cyngor Sir Ceredigion am dorri coed, soniwyd mai llythyr cyffredinol yw'r llythyr sy'n dod allan yr un pryd a'r dreth pleidleisio.*
- *Concern was noted about a letter from Ceredigion County Council regarding the felling of trees; it was noted that the letter is a general one which is circulated at the same time as the council tax.*
- *Soniwyd bod yna dwll/pant yn y ffordd lan yr ochr chwith o Alltgoch am Alltdderw, neu'r ochr dde os yn dod o Tyncelyn am Langeitho.*
- *It was noted that there was a hole/dip in the road on the left hand side from Alltgoch towards Alltdderw, or on the right as you travel from Tyncelyn to Llangeitho.*
- *Tipyn o ddŵr yn cronni rhwng Derlwyn Fawr a Derlwyn Fach, Stags Head.*
- *A lot of water is accumulating between Derlwyn Fawr and Derlwyn Fach, Stags Head.*
- *Angen torri oddi amgylch arwydd 30mya ar y ffordd lawr rhif Gwynfil am bentre Llangeitho, hefyd soniwyd bod yr arwydd yn rhydd.*
- *Need to cut back the vegetation around the 30 mph road sign near Gwynfil towards Llangeitho; it was also noted that the sign was loose.*
- *Derbyniwyd cais ar lafar am gymorth ariannol tuag at brynu coeden Nadolig i'w leoli yn y parc Llangeitho gan Mrs Shioban Buttimer, gwrthodwyd y cais ond clerch i'w hatgoffa i ail geisio yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol nesaf.*
- *A verbal request was received for financial assistance in buying a Christmas tree to be placed in Llangeitho park (from Mrs Shioban Buttimer). This request was rejected, but the Clerk was asked to remind Mrs Buttimer to make the request once more in the next financial year.*
- *Arwydd ffordd sy'n dangos rhiw serth ar bwys Gaerlwyd, Llwynpiod, wedi troi a thorri angen sylw'r Cyngor Sir Ceredigion.*
- *Road sign which notes a steep hill near Gaerlwyd, Llwynpiod, has broken and needs the attention of Ceredigion County Council.*
- *Gofynnir yn y cyfarfod pwy fyddai'n darllen canlyniadau'r etholiad allan eleni.*
- *It was asked who would be reading out the county's parliamentary election results this time.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 3ydd Chwefror 2020 – Festri Capel Llwynpiod.

The next meeting will be held on 3 February 2020 – Llwynpiod Chapel Vestry.